# Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Awtistiaeth (Cymru)

## Gorffennaf 2018

Ar 13 Gorffennaf 2018, cafodd Bil Aelod, Bil Awtistiaeth (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 12 Mehefin 2018, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 3 Gorffennaf 2018, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 7 Rhagfyr 2018.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 22 Chwefror 2019, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.